**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2 Medi 2025

Annwyl Gyfarwyddwyr Addysg

Fel y gwyddoch, mae Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar hyn o bryd yn gweithio ar ail ran ei 6[ed] cylch gwaith. Roedd y llythyr cylch gwaith yn gofyn am argymhellion ar ba addasiadau y dylid eu gwneud i Amodau Gwasanaeth Arweinwyr ac, yn arbennig, a ddylid cynnwys oriau gwaith gwarantedig (neu gyfyngiadau arnynt), yn ogystal â hawl gwyliau a phenwythnosau gwarchodedig ar gyfer arweinwyr, yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D).

Fel rhan o'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, mae llesiant gweithlu ein hysgolion o'r pwys mwyaf i ni i gyd. Rydym yn gwybod sut effaith y mae llwyth gwaith ac oriau gwaith yn ei chael ar lesiant. Yn ogystal â gwaith parhaus i leihau llwyth gwaith, mae'n bwysig sicrhau y gall pob aelod o staff gymryd amser di-dor i ffwrdd o'r gwaith. Ar hyn o bryd mae'r STPC(W)D yn gwarchod athrawon o ran eu diwrnodau a'u horiau gwaith a dylid parchu hyn. Hyd nes y bydd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru wedi gwneud ei argymhellion ac unrhyw newidiadau dilynol wedi eu gwneud i'r STPC(W)D, nid yw'r STPC(W)D yn rhoi gwyliau gwarchodedig i arweinwyr ysgolion yn benodol.

Fodd bynnag, mae Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru eisoes wedi argymell, yn ei bumed adroddiad, fod Llywodraeth Cymru yn atgoffa awdurdodau lleol a chyrff perthnasol o'u cyfrifoldebau fel cyflogwyr, ac yn enwedig yr angen i arweinwyr gael cyfnodau o orffwys di-dor. Mae'r STPC(W)D yn nodi na chaiff fod yn ofynnol i unrhyw athro weithio ar unrhyw ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl gyhoeddus oni bai bod eu contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer hyn yn benodol (er enghraifft yn achos athrawon mewn sefydliadau preswyl). Mae hefyd yn nodi bod rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid, wrth gyflawni eu dyletswyddau, ystyried yr angen i'r pennaeth a'r athrawon yn yr ysgol allu cael cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sydd ei angen i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol a'r amser sydd ei angen i fynd ar drywydd eu diddordebau personol y tu allan i'r gwaith. Wrth ystyried hyn, dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid sicrhau eu bod yn glynu wrth y cyfyngiadau gwaith a nodir yn Rheoliadau Amser Gwaith 1998(19). Mae'r hawliau hyn yn cael eu rhoi i bob athro, gan gynnwys arweinwyr a phenaethiaid.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth arfer eich dyletswydd gofal fel cyflogwyr, dylech sicrhau bod arweinwyr yn cael cyfnodau o orffwys di-dor, ar benwythnosau a thrwy wyliau ysgol. Er mwyn darparu hyn, ni ddylid cysylltu ag arweinwyr yn ystod penwythnosau neu wyliau ysgol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol a bod angen iddynt roi sylw brys.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai pob awdurdod lleol rannu'r llythyr hwn â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr pob un o'u hysgolion i'w hatgoffa o'r rhwymedigaethau hyn, gan ofyn iddynt ei rannu â phob corff llywodraethu llawn yng nghyfarfodydd cyntaf y flwyddyn academaidd newydd.

Edrychaf ymlaen at gael argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar Amodau Gwasanaeth Arweinwyr yn ddiweddarach eleni. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion baratoi i weithio'n gyflym gydag aelodau'r Fforwm Partneriaeth Cyflogau i lunio cynigion ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r STPC(W)D i'w hystyried gan y Gweinidogion ar ôl etholiad cyffredinol cyffredin y Senedd, gyda'r bwriad o’u gweithredu, os yn bosibl, yn ystod hydref 2026.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education